



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Rhagfyr 2015 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 December 2015 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present**—**Y Cyngorwyr/Councillors** Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**), Dai Brabrook, Graham Evans, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Neal Jones, Catrin Miles, Jane Roche.

**1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Datganiad ynglŷn â dyfodol swyddfa'r cyngor ac Antur Teifi yn 36 Pendre.**

Statement regarding the future of the council office and Antur Teifi at 36 Pendre.

**Yn absenoldeb y Maer, croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'r cyfarfod. Cyhoeddodd y bydd swyddfa Antur Teifi yn peidio â bodoli yn Aberteifi o ddiwedd y flwyddyn bresennol. Yn ogystal, bydd y cwmni yn symud yr holl gelfi sydd yn yr Ystafell Gynhadledd. Cytunwyd i'r Maer, y Dirprwy Faer a'r clerc ymgynghori ynglŷn â dyfodol swyddfa'r cyngor.**

In the absence of the Mayor, the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed all to the meeting. He stated that from the end of the current year Antur Teifi will not administer its services from Cardigan. In addition, all the furniture in the Conference Room will be removed. It was agreed that the Mayor, Deputy Mayor and clerk consult regarding the future location of the council office.

**2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyngorwyr/Councillors John Adams-Lewis (*ar ei wyliau / on vacation*), Akira Shimazaki (*ar ei wyliau / on vacation*), Mark Cole (*profedigaeth/ bereavement*), Richard Jones (*dyletswyddau gwaith/work commitments*), Ken Edwards (*dyletswyddau gwaith/work commitments*).

**3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gyngorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr Neal Jones	Cynllunio / Planning A150076
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	Cynllunio / Planning A150846

**4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Tachwedd.**

Confirmation of Minutes of 3 November Council Meeting.

**Tud. 1046, eitem 10(b)(i): Newid "Hapddalwyr" i "Rhandeiliaid" (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**

**Tud. 1046, eitem 10(b)(iv): Newid "cais" i "ymholiad" (Mr Tony Barber).**

Page 1047, item 10(b)(iv): Change "application" to "enquiry" (Mr Tony Barber).

**Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.**

With the above amendments, Cllr Graham Evans proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1045, eitem 8: Trafodwyd cais A150776 yng nghyfarfod llawn y cyngor misol 1 Rhagfyr yn hytrach na'r is-bwyllgorau.**

**Tud. 1047, eitem 11[137]: Mae'r clerc a'r Cyng. Dai Brabrook wedi cwblhau'r adolygiad ar gysgodfannau a seilwaith bysiau yn y dref ac wedi anfon y ffurflen yn ôl i'r cyngor sir ar 24 Tachwedd.**

Page 1045, item 8: Application A150846 was discussed at the full council meeting on 1 December, not at the sub-committees.

Page 1047, item 11[137]: The clerk and Cllr Dai Brabrook have undertaken the survey on the bus shelters and infrastructure pro forma and returned the form to the county council on 24 November.

## 6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

### Dosbarthwyd dyddiadur y Maer am fis Tachwedd i bob aelod yn y cyfarfod.

The Mayor's diary for the month of November was distributed to all members at the meeting.

## 7. Cynllunio / Planning:

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A150846	Land to the west of Bath House Road, Bath House	Proposed integrated health centre and associated works	The council, in principle, unanimously supports the application. Reservations were expressed regarding drainage of the land and the absence of holding tanks on site. It was noted that seven only disabled parking bays have been allocated.
A150884	Victoria House and Carningli, Priory Street	Conversion of former Ceredigion County Council office to three flats and associated works	The council, in principle, supports the application but has reservations regarding waste storage facilities and parking for tenants' vehicles.
A150933	49 North Road	Conversion of a single dwelling unit to two dwelling units and associated works including new drain installation etc.	The council, in principle, supports the application but has reservations regarding waste storage facilities and parking for tenants' vehicles.

**A150076:** Pentood Uchaf Caravan Site, Fishguard Road:

### Ymateb i sylwadau Cyngor Tref Aberteifi (anfonwyd 17 Mawrth 2015)

Response to Cardigan Town Council's comments (forwarded 17 March 2015)

### Cytunwyd bod y cyngor eto yn cefnogi'r cais.

It was further agreed that the council reiterates its previous support for the application.

## 8. (a) Biliau wedi eu talu / Bills paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/11/15	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa / Rent of Office</i>	A9	D/D	£238.33 (0.00)
11/11/15	The Royal British Legion Cardigan Branch: <i>Plethdorch/Wreath (8/11/15)</i> and £25 (cheque no. 4107 unpaid 5/5/15).	D1	4180	£75.00 (0.00)
11/11/15	J. D. R. Thomas, C.N. Emlyn ( <i>System sain/loudspeaker system for Remembrance Sunday</i> ).	A15	4181	£90.00 (15.00)
21/11/15	Trywydd ( <i>Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translating</i> ); (6/10/15 & 3/11/15).	A18	4182	£228.30 (38.05)
31/10/15	CCF: <i>Compost i'r blodau / Compost for flowers</i> .	C1	4183	£24.95 (3.99)
9/11/15	Menter Aberteifi: <i>Hurio Neuadd y Dref</i> . Hire of Guildhall (8/11/15), Remembrance Sunday.	A9	4184	£36.25 (0.00)
4/11/15	D. E. Owen & Son: <i>Torri porfa'r cae chwarae</i> . Grasscutting of King George 5 <sup>th</sup> Playing Field.	B3	4185	£1,803.54 (300.59)
29/10/15	Richards Bros.: <i>Bws i Ginio Cynhaeaf y Maer</i> . Coach for Mayor's Harvest Dinner (29/10/15)	B7	4186	£150.00 (0.00)
1/12/15	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Tachwedd/November)</i>	A3	4187	£748.90 (0.00)
31/10/15	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> . Rent of Conference Room (6/10/15 & 20/10/15, 26/10/15 – Grant Presentation Evening)	A7	4188	£90.00 (15.00)
20/11/15	Newsquest: Underpayment (VAT) to previous invoice (King George 5 <sup>th</sup> Playing Field AGM)	C3	4189	£15.51 (0.00)
25/11/15	Menter Aberteifi: <i>Nawdd i gadw toiled Neuadd y Dref ar agor i'r cyhoedd hyd 31 Mawrth 2016</i> . Sponsorship to keep the Guildhall toilet open to the public until 31 March 2016.	B10	4190	£500.00 (0.00)
21/11/15	Y Cyng. / Cllr D. Brabrook: <i>Costau teithio / Travelling expenses (Survey on bus shelters)</i> .	A3	4191	£10.00 (0.00)

30/11/15	Y Cyng. John Adams-Lewis (Lwfans y Maer – ail randal) (Mayor's allowance – 2 <sup>nd</sup> instalment)	A1	4192	£1,600.00 (0.00)
30/11/15	Bachan Deche / Handyperson (Tachwedd/November)	A19	4193	£245.70 (40.95)

**Cynigiodd y Cyng. Melfydd George bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.**

Cllr Melfydd George proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

**Derbyniadau/Receipts:**

9/10/15 Lloyds Bank: *Llog y Banc/Bank Interest* £4.81

**(b) Gosod dyddiad i gyfarfod y gyllideb (mewn pwyllgor).**

Set date for budget meeting (in committee).

**Cytunwyd ar 12 Ionawr 2016 am 6.00 o'r gloch. Safle i'w gadarnhau.**

12 January 2016 at 6.00pm was agreed. Venue to be confirmed.

**9. Meysydd Parcio / Car Parking.**

**Mae Pwyllgor Craffu'r Cymunedau Ffyniannus wedi cytuno drafft o argymhellion cadarnhaol i drawsnewid cyfundrefn parcio yng Ngheredigion. Blaenryrwyd y drafft i'r cynghorwyr ar 26 Tachwedd. Caiff ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr.**

The Thriving Communities Overview and Scrutiny Committee Task & Finish Group Car Parking Charging Regime draft report forwarded to councillors on 26 November. It will be presented to the Cabinet in January.

**Er mwyn osgoi cosbau parcio, cefnogwyd yr argymhelliad i osod atalfeydd ar fynedfeydd meysydd parcio, ac i gynnig dwy awr o barcio rhad.**

In order to avoid parking penalties, the suggestion of placing barriers at car parks' entrances was supported, and also the provision of free parking for two hours.

**10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Mark Cole (derbyniwyd e-bost yn ei absenoldeb):**

- (i) Dywedodd y Cyng. Cole bod pwyllgor craffu'r Adnoddau Corfforaethol wedi pleidleisio yn erbyn argymhellion y Cabinet i symud Llyfrgell Aberteifi gan gefnogi'r trafodaethau gyda Principality Developments sydd yn seiliedig ar gynnig pum mlynedd rhent yn rhad ac am ddim yng Nghanolfan Teifi.
- (ii) Dywedodd y Cyng. Cole bod pwyllgor craffu'r Cymunedau Ffyniannus wedi cytuno drafft o argymhellion cadarnhaol i drawsnewid cyfundrefn parcio yng Ngheredigion. Caiff yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr.
- (iii) Ychwanegodd y Cyng. Cole y byddai'n cyfarfod â swyddogion i drafod y posibiladau o gyflwyno cynllun cyfyngiad cyflymder i 20mya yn Stryd Napier a Teras Wiliam.

**(b) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) Cynhaliwyd cyfarfod Rhandeiliaid Canolfan Integredig Iechyd Aberteifi ddydd Iau, 27 Tachwedd gyda chyfarfod o'r Gweithgor Cyfathrebu ac Ymrwymiad i ddilyn. Daeth nifer o bobl i'r sesiwn Galw Heibio a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref ar 20 Tachwedd; cafwyd ymateb cadarnhaol i'r holiaduron a ddosbarthwyd yn y cyfarfod. Cynhelir y digwyddiad nesaf yn ystod Gwanwyn 2016 yn dilyn gwybodaeth ar y cais cynllunio a'r cynllun busnes.
- (ii) Pwll Nofio Aberteifi: Mae tri ymddiriedolwr newydd wedi eu hapwyntio oddi ar mis Mai a phump ychwanegol yn ddiweddar. Mae'r ymdrechion i gadw'r pwll ar agor yn mynd yn eu blaen yn dilyn cyfarfod â swyddogion Ceredigion Actif y cyngor sir. Cynhelir digwyddiad codi arian ar 5 Rhagfyr dan ofal Slimming World.
- (iii) Llyfrgell Aberteifi: Mae aelodau lleol y cyngor sir yn cyfarfod â Mr Huw Morgan (Cyfarwyddwr Strategol y cyngor sir) ar 4 Rhagfyr i astudio'r cynlluniau ar gyfer addasu swyddfeydd Stryd Morgan ar gyfer gosod llyfrgell ar y llawr gwaelod yno gan osod lifft newydd i'r llawr cyntaf. Cynhelir cyfarfod Cabinet Arbennig ar 15 Rhagfyr pan fydd yr opsiynau ar gyfer Llyfrgell Aberteifi yn cael eu hystyried.

**(a) Cllr Mark Cole (e-mail received in his absence):**

- (i) Cllr Cole stated that Ceredigion's Corporate Resources scrutiny committee has voted against the Cabinet's recommendations on moving Cardigan Library and supports new negotiations with Principality Developments based on their new offer of 5 years' free rent in Canolfan Teifi.

- (ii) Cllr Cole stated that the Thriving Communities scrutiny committee has agreed a draft of positive recommendations on transforming the car parking regime in Ceredigion. The report shall be presented to Cabinet in January.
  - (iii) Cllr Cole stated that he shall soon be meeting with officers to discuss the potential new 20mph speed limit scheme for Napier Street and Williams Terrace.
- (b) Cllr Catrin Miles:
- (i) The latest Cardigan Integrated Health Centre Stakeholders meeting was held on 27 November followed by a Communication and Engagement workshop. An encouraging number of people attended the Drop-in session held in the Guildhall on 20 November; a positive response was received from the questionnaires distributed at the meeting. The next event will be held during the Spring of 2016 following information on the planning application and the business case.
  - (ii) Cardigan Swimming Pool: Three new trustees were nominated in May with an additional five recently. Efforts to keep the pool open are continuing following a meeting with county council officers of Ceredigion Actif. A fund-raising event organised by Slimming World will be held on 5 December.
  - (iii) Cardigan Library: Local county council members will meet with Mr Huw Morgan (the county council Strategic Director) on 4 December to study plans regarding the renovating of the Morgan Street offices with the possibility of relocating the library to the ground floor with a new lift to the first floor. A Special Cabinet meeting will be held on 15 December to consider all the options regarding the future of Cardigan Library.

## 11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
167	CSC/CCC (Nerys Lewis): <i>Diweddariad Rhaglen Moderneiddio Gofal Preswyl Ceredigion</i> . Update on the Residential Care Modernisation Programme in Ceredigion	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau 18/11/15.</i> Downloaded to members 18/11/15.
168	CSC/CCC (Ann Jones): <i>Yn gofyn am adwaith i'r digwyddiad cau'r ffordd 8/11/15</i> . Requesting report on the success of the road closure for Remembrance Sunday	<i>Mae'r clerc wedi adrodd yn ôl i'r adran.</i> The clerk has responded to the department and reported that no issues had arisen.
169	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Copi o lythyr i Mr Colin Portsmouth ynglŷn â chyrbiau palmentydd</i> . Copy of letter forwarded to Mr Colin Portsmouth regarding amendments to existing kerbs at various locations within the town.	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau 18/11/15.</i> Downloaded to members 18/11/15.
170	CSC/CCC (Cathryn Morgan): <i>Gwybodaeth am grant i'r maes sgrialu</i> / Information regarding grant for the skateboard park	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau 24/11/15. Y clerc i gael diweddariad ar y pris i ailwynebu'r maes sgrialu.</i> Downloaded to members 24/11/15. The clerk to obtain updated quotation for the cost of resurfacing the skateboard park.
171	CSC/CCC (Diana Davies): <i>Ymgynghoriad Trawsnewid Busnes</i> . Business Transformation Document – Response by 4 January 2016.	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau 26/11/15.</i> <i>Aelodau i ddychwelyd yr holiadur erbyn 4 Ionawr.</i> Downloaded to members 26/11/15. Members to return questionnaire by 4 January.
172	CSC/CCC (Ann Jones): <i>Ffordd ar gau –Yr hen bont a'r llwybr troed</i> . Road closure – the old bridge and footbridge, 18/1/16 – 5/2/16	<i>Mynegwyd pryder bod y ddwy bont ar gau ar yr un pryd. Y clerc i ofyn i'r awdurdod ddefnyddio system bydd yn sicrhau bod naill ai un ohonynt neu'r llall ar agor drwy'r cyfnod.</i> Concern was expressed that both the old bridge and the footbridge were simultaneously closed to the public. The clerk was asked to request a rolling closure for the duration of the work.
173	Royal Naval Association, Cardigan & District Branch: <i>Gwasanaeth Carolau</i> / Carol Service, St Cynwyl's Church, Aberporth, 14/12/15, 6.30pm	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei anfon at y Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
174	Area 43: <i>Cyfarfod Blynnyddol</i> / AGM, 26/11/15, 7.30pm in the Centre	<i>Nodwyd.</i> Noted.
175	Gérard Selaquet (President du Comité de Jumelage de Brioude) and the Mayor of Brioude, M Jean-Jacques Faucher: <i>E-byst yn diolch am gyfarchion y cyngor</i> . E-mails in gratitude for the council's message following the Paris atrocities.	<i>Nodwyd.</i> Noted.

176	W. J. Williams & Davies: <i>Ymateb i gais y cyngor i symud ymlaen â phrydles y Clwb Bowls</i> . Response to the council's request to move on the Bowls Club lease.	<i>Mae copïau wedi eu hanfon at y Cyng. Adams-Lewis, Evans a Miles. Cytunwyd bod y cyngorwyr a enwyd a'r clerch yn cyfarfod er mwyn symud ymlaen.</i> Copies have been forwarded to the above-named councillors. It was agreed that the above-mentioned and the clerk discuss the next positive action.
177	<i>Un Llais Cymru: Gwybodaeth am ddogfenni a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) sy'n gosod allan cynigion manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol.</i> One Voice Wales: Information regarding the documents published by the Minister for Public Services for consultation on the Draft Local Government (Wales) Bill which sets out the Welsh Government's detailed proposals for the reform of local government.	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau 26/11/15.</i> Downloaded to members 26/11/15.
178	<i>Cyngor Ar Bopeth: Llythyr o ddiolch am gyfraniad.</i> Citizens' Advice Bureau: Letter of acknowledgment for donation.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
179	<i>Cadwgan: Llythyr o ddiolch am gyfraniad.</i> Letter of acknowledgment for donation.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
180	Ms Sara Nevrkla ( <i>merch / daughter of Mrs Maureen John</i> ): <i>yn diolch am lythyr y cyngor.</i> Acknowledgement of the council's sympathy following the passing of Mrs John.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
181	Lloyds Bank: <i>Llythyr ynglŷn â iawndal.</i> Letter regarding financial services compensation.	<i>I'w drafod yng nghyfarfod y gyllideb.</i> To be discussed at the budget meeting.
182	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Digwyddiad yng Nghaerdydd.</i> Natural Resources Wales: Event "Self-supporting Resilient Communities" in Cardiff, 3/12/15. The agenda includes bringing together members of the public affected by flooding with professional partners with responsibility for, or interest in, managing flood risk within Wales.	<i>Cytunwyd bod y Cyng. Jane Roche yn mynychu'r cyfarfod yng Nghaerdydd.</i> It was agreed that Cllr Jane Roche would attend the meeting. Expenses from Cardigan to Clunderwen train station were approved. Cllr Roche to report back to sub-committee meeting with latest information regarding the final options put forward by the Welsh Government.
183	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Tachwedd.</i> Handyperson's November report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.

- Ann Jones:** *Adain Cau Ffyrdd / Road Closure Section*  
**Cathryn Morgan:** *Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*  
**Diana Davies:** *Rheolwr Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.*  
*Future Generations and Local Service Board Manager.*  
**Nerys Lewis:** *Rheolwr Rhaglenni ar Foderneiddio Gwasanaethau / Programme Manager Service Modernisation*  
**Paul Arnold:** *Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.*  
*Head of Municipal and Environmental Service*

## 12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

### Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Tachwedd.

Confirmation of 17 November Sub-committee Minutes.

#### Tud. 1052, eitem "A Bay to Remember": Newid "cais" i "ymholiad" (Mr Tony Barber).

Page 1052, item "A Bay to Remember": Change "application" to "enquiry" (Mr Tony Barber).

#### Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendment, Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Jane Roche.

#### Materion yn codi Matters arising

#### Tud. 1053 (*Hamdden*): Derbyniwyd argymhelliad (ii) ynglŷn â symud y cyfarpar o fan chwarae'r Netpwl.

Tud. 1053 (*Maes Sgrialu*): Derbyniwyd yr argymhelliad i symud ymlaen i wneud cais am grant i ailwynebu'r maes sgrialu ac i gydweithio gyda Ms Cathryn Morgan.

Tud. 1053 (*Cysgodfannau Bysiau*): Diolchwyd i'r Cyng. Dai Brabrook am gynorthwyo'r clerch i archwilio'r un cysgodfan ar bymtheg sydd o fewn ffiniau'r dref. Anfonwyd y ffurflen yn ôl i'r

cyngor sir gyda'r wybodaeth bendant bod Cyngor Tref Aberteifi yn hawlio perchnogaeth ar gysgodfan cyffordd Maesglas/Cnwcydintir yn unig.

**Tud. 1054 (Goleuadau Nadolig):** Dywedodd y Cyng. Dai Brabrook ei fod ef, y Bachan Deche a Mr Dai Phillips, Fferm Trebared, wedi gosod y goeden Nadolig yn ei lle fore Sul, 29 Tachwedd. Diolchwyd iddynt gan y Dirprwy Faer a chytunwyd bod y clerc yn anfon llythyr o ddiolch i Mr Phillips am ei gynhorthwy. Mae'r Dirprwy Faer a Mrs Diane Vickers yn trefnu gwobr i'r ffenestr Nadolig fwyaf deniadol yn y dref; caiff y wobwr ei chyflwyno nos Sadwrn, 5 Rhagfyr. Bydd côr Ysgol Uwchradd Aberteifi yn perfformio yn ystod seremoni cynnau'r goleuadau.

**Tud. 1054 (Placiau QR):** Cytunwyd bod y Cyng. Neal Jones yn eu gosod ger Gardd Brioude.

**Tud. 1055 (Unrhyw fater arall):** Mae'r clerc wedi cysylltu â Mr Nigel Nicholas, Swyddog Llwybrau'r cyngor sir, ynglŷn â gordyfiant ym Mhenrodyn a Golwg y Castell; anfonwyd lluniau ymlaen er mwyn i'r gweithwyr ddod o hyd i'r safleoedd cywir.

Page 1053 (*Recreation*): Recommendation (ii) regarding the reallocation of play equipment at the Netpool play area was accepted.

Page 1053 (*Skateboard Park*): The recommendation to collaborate with Ms Cathryn Morgan regarding the resurfacing of the park was accepted.

Page 1053 (*Bus Shelters*): Cllr Dai Brabrook was thanked for assisting the clerk to survey the town's 16 bus shelters. The form was returned to the county council informing the authority that Cardigan Town Council owns the Maesglas/Cnwcydintir junction bus shelter.

Page 1054 (*Christmas lights*): Cllr Dai Brabrook stated that he, the Handyperson and Mr Dai Phillips, Trebared Farm, had placed the Christmas tree outside the Guildhall on Sunday, 29 November. They were all thanked by the Deputy Mayor and it was agreed to forward a letter of gratitude to Mr Phillips for his assistance. The Deputy Mayor and Mrs Diane Vickers are organising a Christmas shop window award to be presented on Saturday, 5 December. The Ysgol Uwchradd Aberteifi choir will perform during the light switching-on ceremony.

Page 1054 (*QR plaques*): It was agreed that Cllr Neal Jones mounts the plaques near the Brioude Garden.

Page 1055 (*Any other business*): The clerk has spoken to Mr Nigel Nicholas, the county council's Footpath Officer, regarding the overgrowth at Penrodyn and Golwg y Castell; photographs of the locations were forwarded by the clerk to enable workers to locate the areas.

### **13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Cytunwyd bod y clerc yn anfon llythyr o ddymuniadau da'r cyngor ymlaen at PCSO Steffan Jones yn dilyn ei gyfnod o anhwylder.**

(b) **Dywedodd y Cyng. Jane Roche bod cyfnod ymgynghoriad i gymryd lle ynglŷn ag ymestyn pysgota cregyn bylchog yn Ardal Warchodaeth Arbennig (SAC) Bae Aberteifi. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu diwydiant pysgota cregyn bylchog gan anelu at system rheoli newydd i sicrhau parhad y cynnyrch i'r dyfodol tra'n gwarchod pwysigrwydd rhywogaethau morol a'u cynefinoedd. Agorwyd yr ymgynghoriad deuddeg wythnos ar 26 Tachwedd.**

(a) It was agreed that the clerk forwards the council's best wishes to PCSO Steffan Jones following his recent illness.

(b) Cllr Jane Roche stated that a period of consultation is now taking place regarding the proposals to extend scallop fishing in the Cardigan Bay Special Area of Conservation (SAC). The Welsh Government intends to establish a scallop fishery, stating that a new management system would ensure a sustainable supply of scallops into the future while safeguarding important marine life and habitats. The 12-week consultation period was launched on 26 November.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.05pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....